



Datganiad Prosesu Teg - Rhyddid Gwybodaeth

Beth sy'n digwydd i wybodaeth a gedwir amdanoch chi? Eich hawliau a'n rhwymedigaethau i chi.

Sut yr ydym ni'n defnyddio Data Personol

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn casglu, cadw, defnyddio a datgelu gwybodaeth am bobl (eu data personol), y camau a gymerir gennym i sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu, ac mae hefyd yn disgrifio hawliau sydd gan unigolion mewn pethynas â'r data personol sy'n cael ei drin gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae defnydd a datgeliad o ddata personol yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth Diogelu Data. Felly, mae'n rhaid i CBS Pen-y-bont ar Ogwr sicrhau ei fod yn trin yr holl ddata personol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac yn ofalus iawn wrth sicrhau fod data personol yn cael ei drin yn briodol er mwyn sicrhau a chynnal ffydd a hyder unigolion yn y Cyngor.

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi fod angen i CBS Pen-y-bont ar Ogwr gael sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol gan ddibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.

1. Pam ydym ni'n ymdrin â data personol?

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) yn rhoi hawl cyffredinol i gael mynediad i bob math o wybodaeth sy'n cael ei gofnodi a'i gadw gan awdurdodau cyhoeddus.

Rydym ni'n darparu'r wybodaeth a gedwir gan y Cyngor mewn ymateb I gais a wneir dan y ddeddf Ryddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwynbodaeth Amgylcheddol.

2. Pa fath/dosbarth o ddata personol ydym ni'n ymdrin agaf?

Pan fyddwch chi'n cysylltu â Thîm Gwybodaeth y Cyngor dros y ffôn, drwy lythr, e-bost neu'n bersonol, mae'n bosibl y bydd angen i no gasglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth priodol. Gallai'r wybodaeth yr ydym ni ei angen gennych chi gynnwys gwybodaeth bersonol megis:

- Enw, cyfenw
- Cyfeiriad
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Gwybodaeth taliadau



3. O ble fyddwn ni'n casglu data personol?

Mae'r wybodaeth yn cael ei darparu gennych chi pan fyddwch yn cyflwyno cais FOI/EIR i'r Cyngor. Er mwyn i'r cyngor brosesu eich cais, bydd angen o leiaf enw a chyfeiriad cyfathrebu ar y Tîm Gwynbodaeth.

4. Sut ydym ni'n ymdrin â data personol?

Wedi derbyn eich cais, bydd y Tîm Gwybodaeth yn ei anfon at yr adran berthnasol o fewn y Cyngor er mwyn iddynt ganfod a oes ganddynt unrhyw wybodaeth a pharatoi ymateb. Ni fydd eich gwybodaeth bersonol (enw, cyfeiriad) yn cael ei anfon at yr adran, dim ond eich cais am wybodaeth.

Yna bydd ymateb yn cael ei gasglu yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth berthnasol cyn cael ei anfon atoch gan y Tîm Gwybodaeth.

5. Sut ydym ni'n sicrhau diogelwch data personol?

Mae'r Cyngor n trin diogelwch yr holl ddata personol sydd o dan eith rheolaeth yn gwbl ddifrifol. Byddwn yn sicrhau bod y polisïau, yr hyfforddiant, a'r a'r mesurau technegol a gweithredol addas yn eu lle gan gynnwys monitro cywirdeb ac archwilio er mwyn gwarchod ein systemau gwybodaeth electronig a llaw rhag colli data a chamddefnydd o ddata, a chaniatáu mynediad atynt pan fydd rheswm cyfreithlon dros wneud hynny yn unig, gyda chanllawiau llym arb a ddefnydd y gellid ei wneud o ddata personol. Mae'r gweithdrefnau yma'n cael eu rheoli'n barhaus ac yn cael eu gwella er mwyn sicrhau diogelwch cyfredol.

6. Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol dy'n cael ei drin gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont e Ogwr?

Mae gan unigolion hawliau amrywiol:

1. Yr hawl i gael gwybod
2. Yr hawl i fynediad
3. Yr hawl i gywiro
4. Yr hawl i ddileu
5. Yr hawl i gyfyngu prosesu
6. Yr hawl i gludadwyedd data
7. Yr hawl i wrthwynebu
8. Hawliau mewn perthynas â phenderfynu a phroffilio awtomataidd

Yr hawl i gael gwybod

Mae gennych chi hawl i gael gwybod am gasglu a defnyddio eich data personol. Rhaid i'r Cyngor roi gwybodaeth i chi yn cynnwys: dibenion prosesu eich data personol, y cyfnodau cadw ar gyfer y data hwnnw, ac â phwy y caiff ei rannu. Gelwir hyn yn 'wybodaeth preifatrwydd'.

Mae gan unigolion wahanol hawliau:

Hawl mynediad

Gallwch gael copi, yn amodol ar eithriadau, o'ch data personol a gedwir gan y Cyngor. Mae copi o'r ffurflen gais ar gael ar ein gwefan:

<https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/rhyddid-gwybodaeth/diogelu-data/>

Mae gennych hefyd hawl i gael cadarnhad a yw data sy'n ymwneud â chi yn cael ei brosesu gan y Cyngor ai peidio. Os yw hynny'n wir, mae gennych hawl i'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Pwrpasau a sail gyfreithiol y prosesu
- Y categorïau o ddata personol dan sylw
- Y derbynwyr y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod y rhagwelir y bydd y data personol yn cael ei storio
- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu, ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael o ran ei darddiad.

Sylwch fod 'prosesu' yn golygu gweithrediad neu set o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adfer.

(Mae'n bosibl y bydd angen Prawf Adnabod ac unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i ddod o hyd i'r wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid gwneud unrhyw gais am y wybodaeth uchod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn mis.

Cywiro data

Gallwch ofyn i'r Cyngor gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â chi. Os yw'r data yn anghywir oherwydd ei fod yn anghyflawn, rhaid i'r Cyngor ei gwblhau os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gennych chi.

Dylid gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd ymateb yn cael ei anfon o fewn mis.

Dileu neu gyfyngu data personol

Gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu'ch data neu gyfyngu ar unrhyw brosesu ar eich data, yn amodol ar eithriadau.

Dylid gwneud pob cais i'r Swyddog Diogelu Data. Yna bydd y Cyngor yn eich hysbysu a yw'r cais wedi'i ganiatáu ac os gwrthodwyd ef, y rhesymau dros y gwrthod.

Hawl i beidio â bod yn destun gwneud penderfyniadau awtomataidd

Mae gennych yr hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio â bod yn ddarostyngedig i benderfyniad pan fydd yn seiliedig ar brosesu awtomataidd a'i fod yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sy'n debyg iawn arnoch chi. Mae gennych hawl i fynegi'ch safbwynt a chael esboniad gan y Cyngor o'i benderfyniad a'i herio.

Ond dylid nodi nad yw'r hawl hwn yn berthnasol i bob penderfyniad gan fod eithriadau, er enghraifft, awdurdodiad yn ôl y gyfraith, cyflawni contract y byddwch chi'n barti iddo.

Yr hawl i gludadwyedd data

Mae'r hawl i gludadwyedd data yn caniatáu i chi gaffael a defnyddio eich data personol i'ch dibenion eich hun ar draws gwasanaethau gwahanol.

Nid yw'r hawl yn berthnasol ond i'r wybodaeth yr ydych chi wedi ei rhoi i'r Cyngor.

Yr hawl i wrthwynebu

Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau.

Mae gan y Cyngor un mis calendr i ymateb i wrthwynebiad.

7. Am faint mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cadw data personol? Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cadw data am gynfod mor hir ag sydd angen at y diben neu'r dibenion penodol y cafodd ei gasglu yn unol â [Pholisi Cadw Data'r](#) Cyngor. Ar ôl hynny, bydd yn cael ei ddileu mewn modd diogel.

8. Bath yw'r sail gyfreithlon ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth?

Mae gan unigolion yr hawl i gael mynediad at wybodaeth o dan FOI/EIR.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn i unrhyw unigolyn sy'n gwneud cais i ddarparu enu a chyfeiriad er mwyn anfon ymateb.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i brosesu ymholiadau o'r fath.

9. Cysylltwch â ni

Gall unrhyw unigolyn sy'n pryderu uynglŷn â'r modd y mae CBC Pen-y-bont ar Ogwr yn ymdrin â'i ddata personol gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Cyngor gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfa Wybodaeth, Swyddfeydd Dinesig, Stryd Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.



Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

E-bost foi@bridgend.gov.uk

Ffôn 01656 643565

Gallwch hefyd godi pryderon gyda Chomisiynydd Gwybodaeth Cymru. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru

2il Lawr

Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399

E-bost: wales@ico.org.uk

Gwefan: <https://ico.org.uk/>